# Cofnodion

## Cwestiynau ac Ymatebion Ffurfiol y Cyngor

Date: Dydd Llun, 14 Chwefror 2022

1 **Cwestiwn i'r Aelod Cabinet dros Asedau ac Adnoddau: 2022/01 - Cylchlythyrau Materion Casnewydd**

**Gofynnodd y Cynghorydd Mogford:**

Datganodd Dinas Casnewydd Argyfwng Amgylcheddol yn ddiweddar ac mae'n adrodd y bydd yn cymryd camau ymlaen i leihau ei hôl troed carbon a'i chynhyrchion gwastraff cyffredinol

'Mae gan Materion Casnewydd ddosbarthiad o tua 69,000 o gopïau fesul rhifyn' sydd dros 400,000 o gylchlythyrau print y flwyddyn. (69,000 x 6)

Gan anwybyddu'r ffaith nad yw llawer o drigolion ward Langstone yn derbyn Materion Casnewydd, a yw'r Aelod Cabinet wedi adolygu'n ddiweddar y potensial ar gyfer arbed costau a lleihau niwed amgylcheddol drwy atal y cylchlythyr papur hwn, a chynhyrchu fersiwn ar-lein yn unig?

**Y Cynghorydd Mayer mewn ymgynghoriad â'r Cynghorydd Hughes:**

Mae'n bwysig bod corff cyhoeddus, fel Cyngor, yn cyfathrebu'n rheolaidd â'r bobl a'r cymunedau y mae'n ei wasanaethu.

Nid oes gan lawer o drigolion Casnewydd fynediad neu maen nhw'n dewis peidio â chael mynediad i'r rhyngrwyd na chyfrwng newyddion digidol. Cafodd tua thraean o oedolion yng Nghymru eu hallgáu'n ddigidol yn 2010 ac amcangyfrifodd y dadansoddiad dilynol gyfran yr oedolion nad ydynt erioed wedi defnyddio'r rhyngrwyd ar 31 y cant.
Mae ymchwil ddiweddar ar gyfer Strategaeth Ddigidol y cyngor yn amcangyfrif cyfradd gyfredol o tua 25 y cant yng Nghasnewydd.

Mae ymchwil yn dangos bod Materion Casnewydd yn dal i gael ei werthfawrogi ar ffurf print ac yn cael ei nodi'n rheolaidd fel ffynhonnell allweddol o wybodaeth cyngor mewn arolygon preswylwyr.

Gwnaed ymdrechion parhaus i sicrhau cyn lleied o effaith amgylcheddol â phosibl i Materion Casnewydd gan gynnwys argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu a chael gwared ar yr holl ddeunydd pacio plastig (a ddefnyddiwyd yn flaenorol fel rhan o'r danfoniadau).

Y prif ddull cyflenwi yw drwy wasanaeth drws-i-ddrws y Post Brenhinol sy'n golygu bod copïau'n cael eu darparu ochr yn ochr â'r post dyddiol arferol, gan osgoi danfoniadau ar wahân/penodol a'r effaith a fyddai'n cael. Efallai na fydd rhai trigolion yn derbyn Materion Casnewydd am eu bod wedi optio allan o ddosbarthu post digymell.

Ochr yn ochr â hyn, mae tîm cyfathrebu a marchnata'r cyngor yn ymdrechu'n barhaus i wella'r sianeli a ddefnyddir i gyfathrebu, yn enwedig drwy ddulliau digidol. Er enghraifft, ehangu'r defnydd o sianeli cyfryngau cymdeithasol, datblygu bwletin eNewyddion i drigolion, datblygu gwefannau ac ymgyrchoedd marchnata digidol.

*This document is available in welsh / Mae's ffurflen hon ar gael yn Gymraeg*

Bdd hyn yn rhoi’r cyngor mewn safle da pan ystyrir ei bod yn briodol symud ymhellach oddi wrth fformatau cyfathrebu copi caled.